IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 27 MAI 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Kaaba a/ac Lancaster |

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

2 : CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - CONSPIRACY, HEOL Y PLWCA

Yn bresennol:

Ymgeisydd: Darshan Patel wedi'i gynrychioli gan Martin Jones o Hugh James Solicitors

Cais

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Conspiracy (Caerdydd) Trading Ltd mewn perthynas â Conspiracy, 102-106 Heol y Plwca, Caerdydd.

Roedd y cais yn gofyn am ganiatâd i werthu alcohol i'w yfed ar y safle fel a ganlyn:

Dydd Llun i ddydd Sul: 12:00 i 01:30

Atodwyd map yn dangos y safle a chynllun o'r safle hwnnw i'r adroddiad yn Atodiad A. Atodwyd nifer o amodau ychwanegol a gynigiwyd gan yr ymgeisydd i fodloni'r amcanion trwyddedu yn Atodiad B.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Martin Jones o Hugh James Solicitors y cais. Nododd Mr Jones ei fod yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan breswylydd lleol yn ystod ei gyflwyniad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y safle wedi'i drwyddedu ar gyfer adloniant wedi'i rheoleiddio a lluniaeth hwyr y nos. Roedd y cais yn gofyn am ganiatâd i werthu alcohol. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cafwyd sylwadau gan Heddlu De Cymru a phreswylydd lleol. Derbyniodd yr ymgeisydd yr holl amodau a awgrymwyd yn sylwadau ysgrifenedig Heddlu De Cymru. Roedd Mr Jones o'r farn bod rhai o'r amodau a awgrymwyd gan Heddlu De Cymru ac a dderbyniwyd gan yr ymgeisydd yn berthnasol i'r sylwadau eraill a dderbyniwyd gan breswylydd lleol.

Aeth Mr Jones i'r afael â sylwadau'r preswylydd. Roedd y safle ac eiddo'r preswylydd wedi'u lleoli ar ochrau gyferbyn garej ar strydoedd sy'n rhedeg yn gyfochrog â'i gilydd. Roedd nifer o'r elfennau a amlinellwyd yn y sylwadau'n faterion nad oeddent yn berthnasol i gais trwyddedu. Dywedodd Mr Jones y byddai mannau parcio ar gyfer 60 o gerbydau yn cael eu darparu gan fusnes cyfagos ar ôl 6.00pm.

Roedd amod penodol ar y drwydded safle sy'n atal bwyd a diod rhag gadael y safle ac felly nid oedd unrhyw sbwriel yn yr ardal yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r safle.

O ran niwsans sŵn, dywedwyd wrth yr Aelodau fod nifer o bryderon dilys ynghylch y posibilrwydd o niwsans sŵn gan breswylwyr lleol pan ystyriwyd y cais safle gwreiddiol. Cynhyrchwyd adroddiad acwstig arbenigol er mwyn i'r safle reoli'r posibilrwydd o niwsans sŵn. Mae hyn wedi bod ar waith ers i'r safle ddechrau gweithredu ac ni chafwyd unrhyw gwynion o ran niwsans sŵn yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae'r safle hefyd yn cyflogi staff drws wedi'u cymeradwyo gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (ADD). Atgyfnerthwyd yr amodau hynny hefyd gan yr amodau y cytunwyd arnynt yn flaenorol gyda Heddlu De Cymru o ran digwyddiadau arbennig. Mae cael staff drws ADD yn bresennol ac arwyddion ar y safle hefyd yn helpu gyda gwasgaru cwsmeriaid. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan y Goruchwylydd Safle Dynodedig ar y safle brofiad sylweddol yn y fasnach drwyddedu.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau'r Is-bwyllgor. Gofynnodd Aelod a gydymffurfiwyd â'r lefelau sŵn a nodwyd yn yr asesiad o effaith sŵn ac a oedd y lefelau sŵn yn berthnasol i'r ardal allanol. Cadarnhaodd Mr Jones y cydymffurfiwyd â hwy, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion. Roedd un o'r pwyntiau samplu ar gyfer lefelau sŵn o fewn yr ardal allanol.

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn CYMERADWYO y cais.

Clywodd yr Is-bwyllgor gan yr ymgeisydd, gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Hefyd ystyriodd yr Aelodau Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a'r Datganiad Polisi Trwyddedu. Mae'r Is-bwyllgor hefyd wedi ystyried yr holl sylwadau ysgrifenedig.

Nodwyd i'r ymgeiswyr dderbyn amodau a gynigiwyd gan Heddlu De Cymru cyn y cyfarfod ac y tynnwyd eu sylwadau'n ôl wedyn.

Yng ngoleuni'r uchod a'r sylwadau a derbyniwyd, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeiswyr wedi dangos yn llwyddiannus na fyddai'r cais hwn yn effeithio'n negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

Felly, penderfynodd yr Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais, yn amodol ar yr amodau ychwanegol y cytunwyd arnynt a nodwyd yn Atodiad C yr adroddiad.

## 3 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm